# Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

## 356- Beirniadaeth Rhyddiaith Blwyddyn 5 a 6 i ddysgwyr

## Beirniad – Teresa Wynne

Daeth saith ymgais i law. Diolch i bob un o'r ymgeiswyr am ymdrechu ac am gystadlu. Cefais fwynhad o ddarllen y cyfan ohonynt, ac roedd pob un o safon gwbl dderbyniol.
Yn amlwg roedd y testun Fy Hoff Le wedi apelio a chawsom ddisgrifiadau hynod effeithiol o leoedd arbennig yn cynnwys traethau, ystafelloedd yn eu cartrefi, stablau marchogaeth, parciau antur a gwledydd tramor. Roedd y mwyafrif yn defnyddio geirfa ac ymadroddion addas ac yn cyfansoddi brawddegau sylfaenol cywir. Roedd un ymgais ar ffurf deialog rhwng dau ffrind.

Cafwyd enghreifftiau da o ysgrifennu ymestynnol yng ngwaith y goreuon. Roedd rhai'n defnyddio amrywiaeth o gystrawenau, ansoddeiriau a chymhariaethau yn eu gwaith.
Pwdin Reis sy'n cael y trydydd safle am roi disgrifiad effeithiol o dŷ ei mamgu yn Nê Affrig. Mae ymgais yma i amrywio patrwm y frawddeg gan ddefnyddio ansoddeiriau a chymhariaethau.

Mae'r ail safle yn mynd i Ceffyl am ei ddisgrifiad byw o'r stablau marchogaeth y mae'n ei fynychu a'r hyn sy'n digwydd yno. Hoffais yn fawr y defnydd o'r synhwyrau i greu disgrifiadau cofiadwy,.e.e "clywaf gwehyru cyffrous y ceffylau". Llwyddodd i gyfleu'r mwynhad a brofai wrth farchogaeth a gofalu am ei geffyl, Crunchie.

Mae'r safle cyntaf yn mynd i Ruby Haf Jones am ei disgrifiad o'r Lapdir a'i hymweliad â Sion Corn. Mae'r gwaith yma o safon uchel iawn, wedi ei rannu'n baragraffau priodol ac yn cynnwys patrymau brawddegol amrywiol a chymhariaethau ac ymadroddion hynod effeithiol e.e. "clywais udo aflafar y cŵn",

# Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

“roedd yr awel yn finiog yn brathu fy mochau,”roeddem fel geifr ar daranau.”

Mae gwaith Ruby yn aeddfed iawn ac o safon uchel. Dyma’r math o safon a ddisgwylid mewn cystadleuaeth iaith gyntaf, gystal oedd yr ysgrifennu. Roedd y gwaith yn rhwydd i’w ddarllen drwyddo draw a dawn dweud stori yn amlwg gan yr awdur. Mae’r gwaith yn haeddiannol iawn o’r safle cyntaf. Llongyfarchiadau!

1af - Ruby James
2il - Blythe Welsford
3ydd - Bryce Franklyn